# Paratoi ceffylau ar gyfer eu gwerthu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi ceffylau ar gyfer eu gwerthu.  Mae'n cynnwys dangos y ceffyl mewn llaw i'r darpar gleient trwy ddangos y ceffyl yn sefyll i fyny ac yn trotian i fyny.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. darparu'r gofal a'r lles priodol i'r ceffyl cyn y gwerthiant
3. paratoi'r ceffyl ar gyfer y gwerthiant yn unol â'r cyfarwyddiadau
4. dewis, defnyddio a storio offer yn briodol
5. trin ac atal y ceffyl mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sydd yn peri pryder ynghylch lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
6. cyflwyno'r ceffyl i ddarpar gleientiaid
7. cynnal gweithgareddau priodol ar ôl gwerthu
8. monitro a chynnal eich diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y gofal a'r lles priodol sy'n ofynnol ar gyfer ceffylau cyn ac ar ôl eu gwerthu
3. y gweithdrefnau paratoi ar gyfer gwerthu, yn cynnwys bwydo, gosod carthenni, trin, gosod offer, plethu a thorri
4. y defnydd o offer hyfforddi a gosod offer arbenigol ar gyfer gwerthiannau
5. pwysigrwydd defnyddio technegau trin ac atal, a lleihau straen i'r ceffyl a'r peryglon i chi eich hun ac i eraill
6. y dulliau o gyflwyno'r ceffyl i ddarpar gleientiaid
7. pwysigrwydd ymddygiad da mewn ceffyl a sut i ymdrin ag unrhyw broblemau fel cnoi neu dynnu i ffwrdd (arwain)
8. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir rheoli'r rhain
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

# Paratoi ceffylau ar gyfer eu gwerthu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq345 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffylau; gwerthu; gofal |